**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Ebrill 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mai 2023 |

**PWNC**

Eitem 6: RHAGLENNI DECHRAU'N DEG A GOFAL PLANT A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd cynnig grant i ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir.

Dirprwywyd hawl i'r Pennaeth Plant a Theuluoedd mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i baratoi a chyflwyno achosion busnes i'r Llywodraeth ar gyfer grantiau unigol Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a derbyn cynigion ar ran y Cyngor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Roedd angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn yr elfen gofal plant o Raglen Dechrau'n Deg yn y Sir, ac i gyflwyno achosion busnes i'r Llywodraeth ar gyfer denu arian cyfalaf i gyflawni ymestyniad hwnnw ac i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant ehengach yn y Sir.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Ebrill 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mai 2023 |

**PWNC**

Eitem 7: GWYNEDD OED GYFEILLGAR

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a chefnogwyd y bwriad o ymgeisio am achrediad Cymru Oed Gyfeillgar i Wynedd a sicrhau perchnogaeth eang ar draws y Cyngor a'i bartneriaid i'r bwriad o gryfhau'r nodweddion oed gyfeillgar er derbyn yr achrediad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Dymuniad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Llywodraeth Cymru yw bod pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn derbyn achrediad fel cymuned oed gyfeillgar erbyn 2025.

Ceiswyd cadarnhad o gefnogaeth y Cabinet i ddatblygiad a gweithrediad rhaglen o rwydweithio a chydweithio ar draws y Cyngor a gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddatblygu nodweddion oed gyfeillgar Gwynedd ac i sicrhau'r achrediad i Wynedd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Ebrill 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mai 2023 |

**PWNC**

Eitem 8: ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

i. Penderfynwyd byddai'r Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad i'w hymgorffori yng Nghynllun y Cyngor.
ii. Cymeradwywyd yr argymhelliad o gyflwyno'r asesiad i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022. Lluniwyd yr asesiad anghenion hwnnw yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Roedd yr adroddiad hwn a'r asesiad yn galluogi'r Cyngor i weld y persbectif lleol ar anghenion gofal a chymorth oedolion Gwynedd. Yn ogystal â'r agweddau a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad ar ogledd Cymru, mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am anghenion pobl Gwynedd yn benodol.

Ystyriwyd yr adroddiad hwn fel un sy'n ategu'r adroddiad rhanbarthol, ac yn un sydd wedi ystyried ei gynnwys. Mae hefyd yn ychwanegu gwybodaeth am anghenion poblogaeth Gwynedd at yr adroddiad hwnnw.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 25 Ebrill 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 10 Mai 2023 |

**PWNC**

Eitem 9: DATBLYGU UNEDAU BUSNES YM MHARC BUSNES ERYRI

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodwyd datblygu 10 uned gwaith dan reolaeth y Cyngor ym Mharc Busnes Eryri, Minffordd i gyfarch anghenion busnesau lleol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I ddatblygu unedau gwaith bydd yn ofynnol ymrwymo cyllideb o £2.925M sydd wedi ei glustnodi i'r perwyl.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.